# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ysmygu ac Iechyd

## Manylion allweddol

- **Beth:** Grŵp Trawsbleidiol ar Ysmygu ac Iechyd, dan gadeiryddiaeth John Griffiths AS
- **Pryd:** 10.00 – 11.00, Dydd Iau 20 Ionawr 2022
- **Ble**: Cyfarfod Teams

**Diben:** Archwilio'r farchnad tybaco anghyfreithlon, a'r broses o gyflwyno gwefan ymgyrchu ac adrodd newydd i fynd i'r afael â'r farchnad hon yng Nghymru. Bydd y cyfarfod hefyd yn datgelu cyfreithiau rhyngwladol sy'n diogelu llywodraethau a pholisïau iechyd rhag buddiannau masnachol y diwydiant tybaco. Bydd y cyfarfod hefyd yn cyfleu sut mae'r maes hwn yn berthnasol i'r dirwedd tybaco anghyfreithlon.

## Ymddiheuriadau

- Deb Sugrue, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; Joseph Carter, Asthma UK/BLF; Peredur Owen Griffiths AS; Simon Wilkinson, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Marie Boffey, Rhwydwaith Maethu Cymru; Wallis Jones, Llywodraeth Cymru; Ann Hughes, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Yn bresennol

1. John Griffiths AS (Cadeirydd)
2. Suzanne Cass (ASH Cymru)
3. Simon Scheeres (ASH Cymru)
4. Allan Frost (ASH Cymru)
5. Jacqueline Hotchkiss (siaradwr)
6. Dr Raouf Alebshehy (siaradwr)
7. Roger Mapleson, Safonau Masnach
8. Andrew Bettridge (staff cymorth)
9. Julie Edwards (Ysgrifenyddiaeth)
10. Jason Williams, Swyddog Cyswllt yr Heddlu
11. Judith Parry, Safonau Masnach RhCT
12. Lee Gonzalez (staff cymorth)
13. Mike Davies, Bro Morgannwg
14. Emma Coopey, Heddlu Gwent
15. Nicola Sutton, Safonau Masnach Sir Ddinbych
16. Endaf Lloyd Williams, Safonau Masnachu Gwynedd
17. Andrew Meaney, Safonau Masnach Torfaen
18. Laura Willis, Caerdydd a'r Fro ac Ysbyty Athrofaol Cymru
19. Dara O'Hare, Prifysgol Caerfaddon
20. Alison Dally, Ysgolion Iach Torfaen
21. Kathryn Davies, Safonau Masnach RhCT
22. Claire Howells, Safonau Masnach Torfaen
23. Altaf Hussain AS
24. Charlotte Meller, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
25. Bethan Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
26. Sandra McSparron, Safonau Masnach Sir Benfro
27. Sarah Smith, Benthyca Arian yn Anghyfreithlon
28. Yasmin Zahra (staff cymorth)
29. Helen Poole, GIG Caerdydd a'r Fro
30. Alaw Davies, Ymchwil Canser y DU
31. Hayley Fry, Crimestoppers
32. Laura Wilson, Iechyd Cyhoeddus Cymru
33. Kate Thompson, CIEH
34. Stephanie Barnhouse, Llywodraeth Cymru
35. Gemma Roberts, BHF
36. Philip Garrod, Iechyd Cyhoeddus Cymru

37. Barry Jackson, Safonau Masnach
38. Megan Elliott, Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf
39. Ed Wilson, Llywodraeth Cymru
40. LeeMacGregor, Heddlu Dyfed Powys
41. Olivia Cheek, Ymchwil Canser y DU
42. Liz Western, Ysgolion Iach
43. Torin Greenhill, Ymchwil Canser y DU
44. Heledd Roberts (staff cymorth)
45. David Edwards, Safonau Masnach Sir y Fflint
46. Brody Anderson (staff cymorth)
47. Ian Millington, Safonau Masnach Sir Ddinbych
48. Rhys Harries, Safonau Masnach Abertawe
49. Owen Jones (staff cymorth)
50. Amy Lewis, Iechyd Cyhoeddus Cymru
51. Angie Contestabile, Tenovus
52. Rhys Taylor (staff cymorth)
53. Helen Cunningham (staff cymorth)
54. Simon Bromley, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
55. Anne Wilson, Hywel Dda
56. Julie Powell Jones, Ysgolion Iach
57. Ryland Doyle (staff cymorth)
58. Lucy Duncanson, Hywel Dda
59. Cath Einon, Hywel Dda
60. Ioan Bellin (staff cymorth)
61. Eric Kendall, Rhwydwaith Gwybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth

- 

**Agenda**

62. Emma Coopey, Heddlu Gwent
63. Stuart Phillips, BWY Canine

| **Amser** | **Eitem** |
|---|---|
| 10.00 | 1. Croeso gan y Cadeirydd |
| 10.05 | 2. Cyflwyniad gan ASH Cymru |
| 10.10 | 3. Cyflwyniad gan Jacqueline Hotchkiss a chwestiynau |
| 10.30 | 4. Cyflwyniad gan Dr Raouf Alebshehy a chwestiynau |
| 10.50 | 5. Crynodeb a chloi'r cyfarfod |

**Siaradwyr**

**Jacqueline Hotchkiss,** swyddog safonau masnach sydd ar secondiad i Lywodraeth Cymru i arwain y rhaglen tybaco anghyfreithlon. Bydd Jacqueline yn trafod ymgyrch newydd Tybaco Anghyfreithlon Cymru ac yn rhannu asedau'r ymgyrch. Bydd hi hefyd yn trafod:

- Sianeli ymgyrchu.
- Mapio yn erbyn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i ddangos y berthynas rhwng ardaloedd o amddifadedd lluosog a thybaco anghyfreithlon.
- Cysylltiadau â throseddu.
- Gwaith sydd ar y gweill.

Mae **Dr Raouf Alebshehy,** gynt o Sefydliad Iechyd y Byd, yn wedi hyfforddi fel meddyg meddygol. Ar hyn o bryd mae'n arwain y gwaith o fonitro'r diwydiant tybaco ar gyfer y Grŵp Ymchwil Rheoli Tybaco (TCRG) ym Mhrifysgol Caerfaddon, partner ymchwil y corff gwarchod byd-eang ar gyfer y diwydiant tybaco STOP. Mae TCRG yn grŵp ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'n canolbwyntio ar y sector masnachol a'i effeithiau ar iechyd, gan archwilio sut mae cwmnïau'n ceisio dylanwadu ar wyddoniaeth a pholisi, a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith polisïau iechyd y cyhoedd. Bydd ei gyflwyniad yn cynnwys:

- Trosolwg o sut mae'r diwydiant tybaco yn gweithredu.

- Cyfrifoldebau Llywodraeth y DU (yn amlinellu Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco, ac erthygl 5.3).
- Deall y fasnach anghyfreithlon.
- Beth sydd angen digwydd?
- Myfyrdodau a Chwestiynau.

**Cofnodion y cyfarfod**

**Eitem 1:** Croesawodd y Cadeirydd, John Griffiths AS, Dwyrain Casnewydd, bawb i'r cyfarfod. Dechreuodd drwy nodi sut mae tybaco anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru.

- Yn 2021, gwnaeth timau Cyllid a Thollau EM a Safonau Masnachu ledled Cymru ymafael yn tua 2.84 miliwn o sigaréts a 404kg o dybaco rholio â llaw o’r farchnad anghyfreithlon yng Nghymru[1].

- Y tu hwnt i weithgarwch gorfodi, mae'n hanfodol gweld sut mae'r farchnad anghyfreithlon hon yn effeithio ar y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.
- Yn ôl arolwg diweddaraf ASH Cymru ar dybaco anghyfreithlon, roedd 1 o bob 4 o ysmygwyr yng Nghymru yng nghategori 'prynwyr anghyfreithlon', ac roedd bron i hanner yr ysmygwyr presennol yng Nghymru wedi cael cynnig prynu tybaco anghyfreithlon[2].
- Mae'r farchnad anghyfreithlon yn chwarae rhan hollbwysig o ran tanseilio mesurau allweddol i reoli tybaco ac mae ganddo'r potensial i fod yn gysylltiedig â mathau eraill o droseddu.

**Eitem 2:** Suzanne Cass, Prif Swyddog Gweithredol ASH Cymru

Rhannodd SC fanylion am uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau’r canran o bobl sy’n ysmygu i 5 y cant erbyn 2030, sydd ond 8 mlynedd i ffwrdd. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i bawb – gwleidyddion, cyrff cyhoeddus, gweithwyr iechyd a swyddogion gorfodi, ddefnyddio pob dull posibl i gadw tybaco allan o ddwylo plant ac i helpu'r rhai sy'n gaeth i ysmygu i roi’r gorau iddo. Gwahoddwyd pawb yn y cyfarfod i gefnogi ymgyrch Tybaco Anghyfreithlon ac i roi gwyod am unrhyw weithgarwch maent ymwybodol ohono gan ddefnyddio'r wefan a'r porth newydd Dim Esgus. Byth.
Gwefan Dim Esgus. Byth.

- Ysmygu yw’r prif achos marwolaeth y gellir ei hosgoi yng Nghymru o hyd.
- Mae 17 y cant o'r holl oedolion yng Nghymru yn ysmygu - 440,000 ac mae'r gost i'r GIG yn syfrdanol, sef £302 miliwn y flwyddyn ynghyd ag adnoddau ychwanegol i drin y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor o ganlyniad i ysmygu**.**
- Mae 5,000 o farwolaethau bob blwyddyn, yn ogystal ag aildderbyniadau i ysbytai, sy'n effeithio ar ein GIG.
- Mae tybaco anghyfreithlon yn tanseilio pob un mesur yr ydym wedi'i roi ar waith yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf i atal plant rhag cael gafael ar dybaco.

[1] Ystadegau diweddaraf Ymgyrch CeCe a nodwyd gan ASH Cymru, a ddarparwyd ac a archwiliwyd gan CThEM a Safonau Masnach.
[2] illegal tobacco report.indd (ash.wales) (Arolwg NEMS 2014 - Mae ASH Cymru yn defnyddio hyn fel gwaelodlin, byddwn yn ei ddiweddaru yn yr arolwg NEMS newydd gan ASH Cymru yn ddiweddarach eleni)

- Mae 8 y cant o bobl ifanc rhwng 15 a 16 oed yn dal i ysmygu ac nid yw'r ffigur hwn wedi gostwng ers 2013.
- Yn ôl arolwg o'r gogledd ddwyrain **gall pryniannau tybaco anghyfreithlon fod mor uchel â 55 y cant, ar gyfer plant sy'n ysmygu,** ac o fewn rhai rhanbarthau **mae 73 y cant o blant wedi cael cynnig tybaco anghyfreithlon.**

Er mwyn cadw tybaco i ffwrdd oddi wrth blant mae ASH Cymru yn galw am

- Ymdrechion cydgysylltiedig i leihau faint o dybaco anghyfreithlon sy'n cael ei werthu er mwyn atal troseddwyr rhag gwerthu sigaréts rhad.
- Cryfhau'r cosbau i'r rhai sy'n gwerthu ac ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi.
- Codi'r oedran gwerthu.
- Gweithredu Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llawn i gynnwys y System Tracio ac Olrhain

Cyflwynodd SC Jackie Hotchkiss o Lywodraeth Cymru i esbonio rhai o'r mesurau pendant sy'n cael eu cymryd erbyn hyn:

**Eitem 3: Cyflwyniad gan Jacqueline Hotchkiss, Arweinydd Tybaco Anghyfreithlon, Llywodraeth Cymru**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer ymgyrch aml-gyfrwng newydd ac yn fwy diweddar Ymgyrch CeCe - gwaith tarfu a gorfodi a wnaed gan Safonau Masnach Cymru ac a ariennir gan CThEM.
- Mae gan yr ymgyrch newydd ffocws ar iechyd ac mae'n galw ar y cyhoedd i roi gwybod am dybaco anghyfreithlon.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu hyfforddiant ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a swyddogion heddlu cymunedol ysgolion ledled Cymru, fel y gallant adnabod tybaco anghyfreithlon yn y gymuned, deall

  effaith tybaco anghyfreithlon ar bobl ifanc, y cysylltiadau â throseddu a sut y gallant roi gwybod amdano. ASH Cymru fydd yn cynnal yr hyfforddiant; bydd yn dechrau ym mis Mawrth gyda chyfres o weminarau ac yna ychydig o hyfforddiant ar-lein. Cefnogir yr hyfforddiant gan Ddirprwy Brif Gwnstabl Parmenter, arweinydd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae JH yn y broses o gysylltu ag arweinwyr yr heddlu ar draws y gwahanol heddluoedd yng Nghymru i nodi cymorth a dyddiadau pan fydd swyddogion yn gallu bod yn bresennol.
- Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi hwyluso datblygu gwefan gyntaf Tybaco Anghyfreithlon Cymru, sydd â phlatfform adrodd canolog ac sy'n cynnwys y newyddion diweddaraf ac astudiaethau achos am dybaco anghyfreithlon. Ash Cymru sy'n cynnal y wefan.
- Rhannodd JH fanylion yr ymgyrch Tybaco Anghyfreithlon newydd – Dim Esgus. Byth. - gwefan Dim Esgus. Byth. Mae tystiolaeth flaenorol yn dweud wrthym mai'r ymgyrchoedd mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n dangos yr effaith ar blant; mae argaeledd tybaco anghyfreithlon yn ei gwneud yn llawer haws dechrau ysmygu oherwydd ei fod mor rhad ac i'r rhai sydd eisoes yn ysmygu mae'n ei gwneud yn haws iddynt barhau ac i ysmygu mwy; mae plant yn agored i gael eu hamlygu i fathau eraill o weithgarwch troseddol**.**
- Rhannodd JH enghreifftiau o'r asedau creadigol dwyieithog sydd wedi'u datblygu ar gyfer yr ymgyrch; hysbysebion radio ac ymgyrchu y tu allan i'r cartref gan gynnwys yn Stadiwm Rygbi Principality ar gyfer gemau cartref y Chwe Gwlad; gorsafoedd trên a cherbydau trên yn yr ardaloedd y mae tybaco anghyfreithlon yn effeithio arnynt fwyaf;

matiau cwrw mewn tafarndai mewn ardaloedd a dargedir yn ystod yr un cyfnod. Cyn bo hir, bydd yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn fyw ar draws pob sianel a bydd yn parhau dros ystod eang o blatfformau ar gyfer yr wythnosau nesaf.

- Bydd pecynnau partner yn cael eu dosbarthu'n fuan fel y gall rhanddeiliaid wthio'r negeseuon allan ar draws eu holl blatfformau.
- Rhannodd JH fapiau o ble mae tybaco anghyfreithlon yn fwyaf cyffredin ynghyd â grwpiau degol 1-10 ar y mynegai amddifadedd lluosog. Mae cydberthynas glir rhwng amddifadedd a thybaco anghyfreithlon – ymafael, cudd-wybodaeth, a phrynu profion. Casglwyd 86 y cant o'r adroddiadau cudd-wybodaeth yn y 5 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd 92 y cant o'r achosion o ymafael a phryniadau prawf yn y 5 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Esboniodd JH y cysylltiadau rhwng tybaco anghyfreithlon a throsedd gyfundrefnol ddifrifol. Argymhellodd y dylai pobl ddarllen y cyhoeddiadau a ganlyn am dystiolaeth bendant o'r mater; RUSI On TAP Europe E-Commerce, Delivery Services and the Illicit Tobacco Trade | Royal United Services Institute (rusi.org); HMRC – From Leaf to Light – Tackling illicit tobacco: From leaf to light (publishing.service.gov.uk)
- Esboniodd JH fod adolygiad parhaus mewn perthynas â rheoleiddio tybaco – bydd Olrhain a Diogelwch ar gyfer Cynhyrchion Tybaco yn rhoi pwerau rheoleiddio i CThEM gyflwyno sancsiynau llymach ar lefel y stryd i fynd i'r afael ag ochosio o osgoi talu treth tybaco – gall CThEM roi pwerau gorfodi i dimau safonau masnach lleol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Ymgyrch CeCe am y tair blynedd nesaf ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni'r cynllun cyflawni nesaf ar gyfer rheoli tybaco.
- Rhoddodd JH gyflwyniad ynghylch y wefan; mae'r diben a'r ffocws ar adrodd fel y brif swyddogaeth - bydd meysydd yn cofnodi gwybodaeth a fydd yn cael ei hanfon drwy holl dimau gwybodaeth ranbarthol Safonau Masnach Cymru ac yna timau gorfodi awdurdodau lleol er mwyn gweithredu. Bydd y wefan yn tynnu sylw at astudiaethau achos personol a bydd yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf am dybaco anghyfreithlon ledled Cymru.

**Cwestiynau**

**Simon Scheeres (ASH Cymru)-** Nododd SS fod llawer o randdeiliaid yn y cyfarfod sydd â phlatfformau a rhwydweithiau cryf ar y cyfryngau cymdeithasol, a gofynnodd a fyddai o fudd i'r ymgyrch pe baent yn rhannu deunydd yr ymgyrch.

Dywedodd JH y byddai o fudd i'r ymgyrch, ac y byddai pecyn partner yn cael ei anfon allan pan fydd yn barod.
**Owen Jones (staff cymorth Jayne Bryan)** – Mae OJ yn gynghorydd i gymuned Adamsdown – dywedodd OJ fod Clifton Street yn ei gymuned yn ganolbwynt adnabyddus ar gyfer tybaco anghyfreithlon – maent yn cael eu chwilio'n rheolaidd a'u dwyn gerbron y llys ond nid yw'r dirwyon yn ddigon mawr – maent yn rhan o'u model busnes – beth ydyn ni'n ei wneud pan fyddwn ni'n gwybod eu bod yno?

Dywedodd JH fod safonau masnach yn ymwybodol iawn o Clifton Street ac nad yw'r sancsiynau presennol yn gweithio. Mae angen llawer o adnoddau i fwrw ymlaen ag erlyniad. Byddai'r rheoliadau rheoli tybaco sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn rhoi pwerau ychwanegol i dimau safonau masnach a fydd yn arwain at ddirwyon sylweddol i'r troseddwyr tybaco anghyfreithlon.

**Altaf Hussain AS** – rhoddodd sylwadau ar yr hyfforddiant sydd ar y gweill i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu – roedd yn teimlo y dylai siopwyr lleol fod yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw – mae angen i'r Swyddogion ddod â'r hyfforddiant hwn i sylw cyfarfodydd

cymunedol lleol fel y gellir lledaenu'r gair yn ehangach – roedd yn teimlo bod diffyg gwybodaeth ynghylch pwy yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn cymunedau ac y byddai rhestr o Swyddogion hyfforddedig yn ddefnyddiol er mwyn hidlo i lawr i'r gymuned leol.

Dywedodd JK mai'r Swyddogion Cymorth Cymunedol oedd llygaid a chlustiau'r gymuned, a bod y Gymdeithas Siopau Cyfleustra wedi dangos diddordeb.

**Sarah Smith o'r Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon** – dywedodd fod safonau masnach yn cydnabod pa mor anodd yw gorfodi; mae ganddynt gymaint o bwysau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a dim digon o adnoddau - nid yw cymryd troseddau i'r llysoedd yn mynd i gael y cosbau y maent yn eu dymuno – nid yw'n fater annibynnol; mae'n gysylltiedig â throseddau difrifol eraill gydag ymchwiliadau cymhleth hirdymor sy'n cymryd 1, 2 neu hyd yn oed 3 blynedd neu fwy.

Diolchodd SS i JH am ei chyfraniad a chyflwynodd y siaradwr nesaf.

**Eitem 4: Ar hyn o bryd mae Dr Raouf Alebsheshy yn arwain y gwaith o fonitro'r diwydiant tybaco ar gyfer y Grŵp Ymchwil Rheoli Tybaco (TCRG) ym Mhrifysgol Caerfaddon.**

Wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau ar gynlluniau i fod yn ddi-fwg erbyn 2030, atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol fod ein hymdrechion yn groes i fuddiannau masnachol diwydiant y mae ei gynhyrchion yn lladd hanner ei ddefnyddwyr.

- Esboniodd RA sut y mae'r diwydiant tybaco wedi datblygu tactegau i effeithio ar fesurau iechyd y cyhoedd a chyfrifoldebau'r DU o dan gyfraith ryngwladol.
- Mae baich masnach anghyfreithlon yn y DU
- Mae twyll gan y diwydiant tybaco yn mynd yn ôl 50 mlynedd – mae polisïau iechyd y cyhoedd yn cael eu datblygu ar sail tystiolaeth – mae'r diwydiant tybaco yn talu i gyhoeddi ei dystiolaeth ei hun.
- 2005 – Daeth y Fframwaith ar Reoli Tybaco i rym
- 2012 – mabwysiadwyd y Protocol i Ddileu Masnach mewn Cynhyrchion Tybaco
- 2018 – daeth y protocol i rym
- Mae'r DU yn rhan o'r ddau gytundeb ac felly mae'n rhaid cydymffurfio.
- Mae Erthygl 5.3 yn nodi y dylid diogelu polisïau rhag buddiannau masnachol a buddiannau breintiedig eraill y diwydiant tybaco, a dylid cyrraedd o leiaf y safon hon.
- Nodir hefyd y dylai fod cymaint o dryloywder â phosibl o ran unrhyw ryngweithio gyda'r diwydiant tybaco.
- Mae'r Erthygl yn cwmpasu pob lefel o lywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol.

**Beth mae Erthygl 5.3 yn ei olygu'n ymarferol?**

- Codi ymwybyddiaeth o risgiau tybaco, a thactegau'r diwydiant tybaco.
- Gwrthod partneriaethau gyda'r diwydiant tybaco.
- Bod yn dryloyw ac yn gywir ynghylch unrhyw ryngweithio â'r diwydiant tybaco – pan fo angen rhyngweithio dylid ei ddatgelu – nid yr agenda yn unig, ond manylion yr hyn a drafodwyd hefyd.
- Dim triniaeth ffafriol i'r diwydiant tybaco.
- Cyfyngu ar ryngweithio – cyfarfodydd angenrheidiol yn unig – gweithredol nid polisi.
- Osgoi gwrthdaro buddiannau – dim rhoddion mewn nwyddau; dim cyfraniadau i bleidiau gwleidyddol.

- Peidio â derbyn 'Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol' – ni ddylem roi cyhoeddusrwydd iddynt.

**Sut gallwn fesur cynnydd y DU?**

- Adroddiad cynnydd blynyddol a'r Sgôr Mynegai Tybaco Byd-eang – yn ystod y 3 blynedd diwethaf mae'r DU wedi mynd o 1$^{af}$ i 3$^{ydd}$.
- Mae'r mesur yn ymwneud ag 'atal dylanwad y diwydiant' – mae'r DU wedi cael sgôr annerbyniol o 11 yn gyson, felly mae hwn yn faes penodol sy'n peri pryder.

Awgrymodd RA ein bod yn cymryd gofal pan rydym yn darllen cyhoeddiadau ac yn eu derbyn fel tystiolaeth, oherwydd yn aml mae’r diwydiant tybaco yn talu amdanynt, fel yr adroddiad RUSI y soniwyd amdano yn gynharach.

Yn olaf, ceir canllawiau da yn y DU ond yn aml dim ond yn rhannol y cânt eu rhoi ar waith. Nid oes cyfraith eto sy'n gwahardd cyfraniadau gan y diwydiant tybaco i’r llywodraeth. Mae llawer o botensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau. Dylid o leiaf ddatgelu hyn, ond yn ddelfrydol byddai gwaharddiad llwyr yn well.

Daeth RA i'r casgliad, drwy rym cyfraith ryngwladol - Erthygl 36 o'r Protocol - y dylai partïon ofyn i'r diwydiant tybaco dalu am fesurau yn erbyn masnach anghyfreithlon sy'n bodloni amcanion y Protocol.

**Beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf?**

- Canllawiau clir a chyson.
- Gwahardd gweithgareddau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.
- Tryloywder ynghylch ymatebion y diwydiant tybaco i ymgynghoriadau rheoleiddiol.
- Cofrestr gyfreithiol rwymol, sy’n hygyrch i'r cyhoedd, o weithgarwch lobïo ar draws gweinyddiaethau'r DU.
- Gwahardd cyfraniadau gan y diwydiant tybaco (ariannol neu fel arall) i bleidiau gwleidyddol a swyddogion cyhoeddus
- Gwahardd swyddogion cyhoeddus rhag cael swyddi yn y diwydiant tybaco am o leiaf 5 mlynedd ar ôl gadael y swydd (ac i'r gwrthwyneb)

**Cwestiynau a sylwadau**

Rhannodd SS sut roedd erthygl 5.3 wedi'i chynnwys yng Nghynllun Rheoli Tybaco diwethaf Lloegr a gofynnodd sut y gallwn sicrhau bod y protocol yn cael ei gynnwys yma. Atgoffodd RA y cyfarfod fod y protocol yn cynnwys rhwymedigaethau i wledydd datganoledig a bod angen i holl swyddogion y llywodraeth sy'n gweithio ar bob lefel osgoi'r diwydiant tybaco a sicrhau nad ydynt yn darged i'r diwydiant tybaco.

Gofynnodd SC i RM o Safonau Masnach Wrecsam sut mae'r diwydiant tybaco yn defnyddio ei safle yng Nghymru. Dywedodd RM eu bod bob amser wedi ceisio creu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith gorfodi safonau masnach drwy ddefnyddio tactegau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a dangos eu hunain i fod yn bobl dda. Fodd bynnag, nododd RM fod data o 2016 yn dangos bod dwy ran o dair o'r farchnad anghyfreithlon yn cynnwys cynhyrchion go iawn sydd wedi'i smyglo – mae'r diwydiant tybaco yn darparu'r cynhyrchion hwnnw.

**Eitem 5:** – Sylwadau a chamau gweithredu terfynol

- Deunyddiau'r ymgyrch a'r pecynnau Partner i'w dosbarthu i bawb •
  Gwahodd pawb i rannu asedau'r ymgyrch – yn enwedig yn y cyfnod cyn pencampwriaeth rygbi'r Chwe Gwlad
- ASH Cymru i greu grŵp rhanddeiliaid a fydd yn cyfarfod eto mewn 6-9 mis i adrodd ar gynnydd yr ymgyrch
- ASH Cymru i ddosbarthu canllawiau polisi'r Grŵp Ymchwil Rheoli Tybaco

Diolchodd JG bawb am eu presenoldeb yn y cyfarfod heddiw ac ailadroddodd y neges bod yn rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i danseilio'r galw am dybaco anghyfreithlon. Yna daeth â'r cyfarfod i ben.

DIWEDD